OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 679 (Cy. 155)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) (Rhif 2) 2022

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") yn sefydlu fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer cwricwlwm ac yn gwneud darpariaeth ynghylch asesu ar gyfer disgyblion a phlant yng Nghymru ("y Cwricwlwm i Gymru"). Mae adran 74(1) o Ddeddf 2021 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud diwygiadau canlyniadol mewn perthynas â'r Ddeddf honno er mwyn rhoi effaith lawn iddi. Mae adran 75(1)(b) o Ddeddf 2021 hefyd yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol.

Daw'r Cwricwlwm i Gymru yn fandadol ar gyfer y grwpiau blwyddyn mewn ysgolion a lleoliadau eraill fel a ganlyn—

(a) ar 1 Medi 2022 ar gyfer—

(i) disgyblion a phlant y darperir addysg feithrin ar eu cyfer,

(ii) disgyblion yn eu blwyddyn derbyn,

(iii) disgyblion ym mlynyddoedd 1 i 6 y darperir cwricwlwm perthnasol iddynt yn unol â Deddf 2021, a

(iv) disgyblion ym mlwyddyn 7 mewn ysgol a gynhelir pan fo'r pennaeth a'r corff llywodraethu wedi mabwysiadu cwricwlwm perthnasol o dan Ran 2 o Ddeddf 2021,

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2022 No. 679 (W. 155)

# EDUCATION, WALES

## The Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021 (Consequential Amendments) (Secondary Legislation) (No. 2) Regulations 2022

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

The Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021 ("the 2021 Act") establishes a new legal framework for a curriculum and makes provision about assessment for pupils and children in Wales ("the CfW"). Section 74(1) of the 2021 Act provides that the Welsh Ministers may make consequential amendments in relation to that Act in order to give it full effect. Section 75(1)(b) of the 2021 Act also provides that the Welsh Ministers may make different provision for different purposes.

The CfW will become mandatory for the year groups in schools and other settings as follows—

(a) on 1 September 2022 for—

(i) pupils and children for whom nursery education is provided,

(ii) pupils in their reception year,

(iii) pupils in years 1 to 6 who are provided with a relevant curriculum in accordance with the 2021 Act, and

(iv) pupils in year 7 at a maintained school where the head teacher and governing body have adopted a relevant curriculum under Part 2 of the 2021 Act,

(b) ar 1 Medi 2023 ar gyfer disgyblion ym mlynyddoedd 7 neu 8,

(c) ar 1 Medi 2023 ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 8,

(d) ar 1 Medi 2024 ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 9,

(e) ar 1 Medi 2025 ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 10, ac

(f) ar 1 Medi 2026 ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 11.

Fel rhan o'r diwygiadau canlyniadol a wneir gan y Rheoliadau hyn, mae nifer o offerynnau statudol wedi eu dirymu gan nad oes eu hangen mwyach oherwydd y trefniadau newydd a wneir o dan Ddeddf 2021. Mae rhai wedi eu datgymhwyso'n raddol yn unol â chyflwyno trefniadau'r cwricwlwm newydd cyn cael eu dirymu, tra bod eraill wedi eu dirymu. Mae'r rhestr o offerynnau statudol sydd wedi eu dirymu gan y Rheoliadau hyn yn cynnwys—

(a) Rheoliadau Addysg (Datgymhwyso'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2005,

(b) Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru) (Datgymhwyso Gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 4) 2006,

(c) Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio) (Cymru) 2008,

(d) Rheoliadau Addysg (Datgymhwyso Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru yng Nghyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2008,

(e) Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) 2009,

(f) Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Rhaglenni Addysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Rhaglenni Astudio ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2013,

(g) Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) (Diwygio) 2014,

(h) Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2014,

(i) Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio) (Cymru) (Diwygio) 2015, a

(b) on 1 September 2023 for pupils in years 7 or 8,

(c) on 1 September 2023 for pupils in year 8,

(d) on 1 September 2024 for pupils in year 9,

(e) on 1 September 2025 for pupils in year 10, and

(f) on 1 September 2026 for pupils in year 11.

As part of the consequential amendments made by these Regulations, several statutory instruments are revoked as they are no longer required due to the new arrangements made under the 2021 Act. Some are gradually disapplied in line with the introduction of the new curriculum arrangements before being revoked, while others are revoked. The list of statutory instruments revoked by these Regulations comprises of—

(a) the Education (Disapplication of the National Curriculum at Key Stage 1) (Wales) Regulations 2005,

(b) the Education (National Curriculum for Wales) (Disapplication of Science at Key Stage 4) Regulations 2006,

(c) the Education (National Curriculum) (Attainment Targets and Programmes of Study) (Wales) Order 2008,

(d) the Education (Disapplication of the National Curriculum for Wales at Key Stage 1) (Wales) Regulations 2008,

(e) the Education (Local Curriculum for Pupils in Key Stage 4) (Wales) Regulations 2009,

(f) the National Curriculum (Educational Programmes for the Foundation Phase and Programmes of Study for the Second and Third Key Stages) (Wales) Order 2013,

(g) the Education (Local Curriculum for Pupils in Key Stage 4) (Wales) (Amendment) Regulations 2014,

(h) the Education (National Curriculum) (Foundation Phase) (Wales) Order 2014,

(i) the Education (National Curriculum) (Attainment Targets and Programmes of Study) (Wales) (Amendment) Order 2015, and

(j) Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy’n Ymwneud â Gwybodaeth Asesiadau Athrawon) (Cymru) 2018.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn.

(j) the Education (Amendments Relating to Teacher Assessment Information) (Wales) Regulations 2018.

The Welsh Ministers’ Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 679 (Cy. 155)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) (Rhif 2) 2022

*Gwnaed* *15 Mehefin 2022*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *17 Mehefin 2022*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 74(1) a 75(1)(b) o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

## RHAN 1

### Cyflwyniad

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) (Rhif 2) 2022.

(2) Daw Rhan 1 i rym ar 1 Medi 2022.

(3) Daw Rhan 2 i rym fel y'i nodir yn y rheoliadau unigol.

(**1**) 2021 dsc 4.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2022 No. 679 (W. 155)

# EDUCATION, WALES

## The Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021 (Consequential Amendments) (Secondary Legislation) (No. 2) Regulations 2022

*Made* *15 June 2022*

*Laid before Senedd Cymru* *17 June 2022*

*Coming into force in accordance with regulation 1(2) and (3)*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by sections 74(1) and 75(1)(b) of the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021(**1**), make the following Regulations:

## PART 1

### Introduction

**Title and commencement**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021 (Consequential Amendments) (Secondary Legislation) (No. 2) Regulations 2022.

(2) Part 1 comes into force on 1 September 2022.

(3) Part 2 comes into force as set out in the individual regulations.

(**1**) 2021 asc 4.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "addysg feithrin" ("*nursery education*") yw addysg a ddarperir i blant neu ddisgyblion sy'n iau na'r oedran ysgol gorfodol—

(a) mewn ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir, neu

(b) gan ddarparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir;

mae i "addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir" ("*funded non-maintained nursery education*") yr ystyr a roddir iddo yn adran 80(1)(a) o Ddeddf 2021;

ystyr "blwyddyn 1" ("*year 1*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd 6 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn 3" ("*year 3*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd 8 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn 4" ("*year 4*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd 9 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn 5" ("*year 5*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd 10 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn 6" ("*year 6*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd 11 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn 7" ("*year 7*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd 12 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn 8" ("*year 8*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd 13 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn 9" ("*year 9*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd 14 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn 10" ("*year 10*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd 15 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn derbyn" ("*reception year*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd 5 oed ynddo;

mae i "cwricwlwm perthnasol" ("*relevant curriculum*") yr ystyr a roddir iddo yn adran 56(5) o Ddeddf 2021;

**Interpretation**

**2.** In these Regulations—

"the 1996 Act" ("*Deddf 1996*") means the Education Act 1996(**1**);

"the 2021 Act" ("*y Ddeddf*") means the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021;

"funded non-maintained nursery education" ("*addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir*") has the meaning given to it in section 80(1)(a) of the 2021 Act;

"head teacher" has the meaning given to it in section 579(1) of the 1996 Act;

"maintained nursery school" (*"ysgol feithrin a gynhelir"*) has the meaning given to it in section 79(1)(b) of the 2021 Act;

"maintained school" (*"ysgol a gynhelir")* has the meaning given to it in section 79(1)(a) of the 2021 Act;

"nursery education" ("*addysg feithrin*") means education provided to children or pupils below compulsory school age—

(a) in a maintained school or a maintained nursery school, or

(b) by the provider of funded non-maintained nursery education;

"pupil" ("*disgybl*") has the meaning given to it in section 3 of the 1996 Act(**2**);

"reception year" ("*blwyddyn derbyn*") means a year group in which the majority of pupils attain the age of 5;

"relevant curriculum" ("*cwricwlwm perthnasol*") has the meaning given to it in section 56(5) of the 2021 Act;

"setting" ("*lleoliad*") means—

(a) a maintained school,

(b) a maintained nursery school,

(c) a provider of funded non-maintained nursery education, and

(d) a pupil referral unit;

"year 1" ("*blwyddyn 1*") means a year group in which the majority of pupils attain the age of 6;

---

(**1**) 1996 c. 56.

(**2**) Subsection (1) was amended by section 71(1), and paragraph 9 of Schedule 6 to, the Education Act 1997 and subsection (1) and (1A) were further amended by section 215(1) and paragraph 34 of Schedule 21 to the Education Act 2002 (c. 32).

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996(**1**);

ystyr "Deddf 2021" ("*the 2021 Act*") yw Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021;

mae i "disgybl" yr ystyr a roddir i "pupil" yn adran 3 o Ddeddf 1996(**2**);

ystyr "grŵp blwyddyn" ("*year group*") yw grŵp o blant neu ddisgyblion mewn lleoliad y bydd y rhan fwyaf ohonynt, mewn blwyddyn academaidd benodol, yn cyrraedd yr un oedran;

ystyr "lleoliad" ("*setting*") yw—

(a) ysgol a gynhelir,

(b) ysgol feithrin a gynhelir,

(c) darparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir, a

(d) uned cyfeirio disgyblion;

mae i "pennaeth" yr ystyr a roddir i "head teacher" yn adran 579(1) o Ddeddf 1996;

mae i "ysgol a gynhelir" ("*maintained school*") yr ystyr a roddir iddo yn adran 79(1)(a) o Ddeddf 2021;

mae i "ysgol feithrin a gynhelir" ("*maintained nursery school*") yr ystyr a roddir iddo yn adran 79(1)(b) o Ddeddf 2021.

# RHAN 2

## Diwygiadau Canlyniadol

**Rheoliadau Addysg (Datgymhwyso'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2005**

**3.** Caiff Rheoliadau Addysg (Datgymhwyso'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2005(**3**) eu dirymu ar 1 Medi 2022.

**Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru) (Datgymhwyso Gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 4) 2006**

**4.** Caiff Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru) (Datgymhwyso Gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 4) 2006(**4**) eu dirymu ar 1 Medi 2022.

(**1**) 1996 p. 56.
(**2**) Diwygiwyd is-adran (1) gan adran 71(1) o Ddeddf Addysg 1997 a pharagraff 9 o Atodlen 6 iddi a diwygiwyd is-adran (1) ac (1A) ymhellach gan adran 215(1) o Ddeddf Addysg 2002 (p. 32) a pharagraff 34 o Atodlen 21 iddi.
(**3**) O.S. 2005/1511 (Cy. 115).
(**4**) O.S. 2006/1335 (Cy. 128).

"year 3" ("*blwyddyn 3*") means a year group in which the majority of pupils attain the age of 8;

"year 4" ("*blwyddyn 4*") means a year group in which the majority of pupils attain the age of 9;

"year 5" ("*blwyddyn 5*") means a year group in which the majority of pupils attain the age of 10;

"year 6" ("*blwyddyn 6*") means a year group in which the majority of pupils attain the age of 11;

"year 7" ("*blwyddyn 7*") means a year group in which the majority of pupils attain the age of 12;

"year 8" ("*blwyddyn 8*") means a year group in which the majority of pupils attain the age of 13;

"year 9" ("*blwyddyn 9*") means a year group in which the majority of pupils attain the age of 14;

"year 10" ("*blwyddyn 10*") means a year group in which the majority of pupils attain the age of 15;

"year group" ("*grŵp blwyddyn*") means a group of children or pupils at a setting the majority of whom will, in a particular academic year, attain the same age.

# PART 2

## Consequential Amendments

**The Education (Disapplication of the National Curriculum at Key Stage 1) (Wales) Regulations 2005**

**3.** The Education (Disapplication of the National Curriculum at Key Stage 1) (Wales) Regulations 2005(**1**) are revoked on 1 September 2022.

**The Education (National Curriculum for Wales) (Disapplication of Science at Key Stage 4) Regulations 2006**

**4.** The Education (National Curriculum for Wales) Disapplication of Science at Key Stage 4) Regulations 2006(**2**) are revoked on 1 September 2022.

(**1**) S.I. 2005/1511 (W. 115).
(**2**) S.I. 2006/1335 (W. 128).

**Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Ieithoedd Tramor Modern) (Cymru) 2008**

**5.**—(1) Mae Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Ieithoedd Tramor Modern) (Cymru) 2008(**1**) ("Gorchymyn 2008") yn gymwys fel a ganlyn.

(2) Ar 1 Medi 2022, nid yw Gorchymyn 2008 yn gymwys i ddisgyblion ym mlwyddyn 7 mewn ysgol a gynhelir pan fo'r pennaeth a'r corff llywodraethu wedi mabwysiadu cwricwlwm perthnasol ar gyfer y disgyblion blwyddyn 7 hynny o dan Ran 2 o Ddeddf 2021.

(3) O 1 Medi 2023, nid yw Gorchymyn 2008 yn gymwys i ddisgyblion ym mlynyddoedd 7 neu 8 mewn ysgol a gynhelir.

(4) Caiff Gorchymyn 2008 ei ddirymu ar 1 Medi 2024.

**Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio) (Cymru) 2008**

**6.**—(1) Mae Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio) (Cymru) 2008(**2**) ("Gorchymyn 2008") yn gymwys fel a ganlyn.

(2) O 1 Medi 2022, nid yw erthyglau 4 i 15 yn gymwys i ddisgyblion ym mlynyddoedd 3, 4, 5 a 6 mewn ysgol a gynhelir.

(3) Ar 1 Medi 2022, nid yw erthyglau 4 i 15 yn gymwys i ddisgyblion ym mlwyddyn 7 mewn ysgol a gynhelir pan fo'r pennaeth a'r corff llywodraethu wedi mabwysiadu cwricwlwm perthnasol ar gyfer y disgyblion blwyddyn 7 hynny o dan Ran 2 o Ddeddf 2021.

(4) O 1 Medi 2023, nid yw erthyglau 4 i 15 yn gymwys i ddisgyblion ym mlynyddoedd 7 neu 8 mewn ysgol a gynhelir.

(5) O 1 Medi 2024, nid yw erthyglau 4 i 15 yn gymwys i ddisgyblion ym mlwyddyn 9 mewn ysgol a gynhelir.

(6) O 1 Medi 2025, nid yw erthyglau 6, 10, 13, 14 a 15 yn gymwys i ddisgyblion ym mlwyddyn 10 mewn ysgol a gynhelir.

(**1**) O.S. 2008/1408 (Cy. 145).
(**2**) O.S. 2008/1409 (Cy. 146). Mae diwygiadau nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

**The Education (National Curriculum) (Modern Foreign Languages) (Wales) Order 2008**

**5.**—(1) The Education (National Curriculum) (Modern Foreign Languages) (Wales) Order 2008(**1**) ("the 2008 Order") applies as follows.

(2) On 1 September 2022, the 2008 Order does not apply to pupils in year 7 at a maintained school where the head teacher and governing body have adopted a relevant curriculum for those year 7 pupils under Part 2 of the 2021 Act.

(3) From 1 September 2023, the 2008 Order does not apply to pupils in years 7 or 8 at a maintained school.

(4) The 2008 Order is revoked on 1 September 2024.

**The Education (National Curriculum) (Attainment Targets and Programmes of Study) (Wales) Order 2008**

**6.**—(1) The Education (National Curriculum) (Attainment Targets and Programmes of Study) (Wales) Order 2008(**2**) ("the 2008 Order") applies as follows.

(2) From 1 September 2022, articles 4 to 15 do not apply to pupils in years 3, 4, 5 and 6 at a maintained school.

(3) On 1 September 2022, articles 4 to 15 do not apply to pupils in year 7 at a maintained school where the head teacher and governing body have adopted a relevant curriculum for those year 7 pupils under Part 2 of the 2021 Act.

(4) From 1 September 2023, articles 4 to 15 do not apply to pupils in years 7 or 8 at a maintained school.

(5) From 1 September 2024, articles 4 to 15 do not apply to pupils in year 9 at a maintained school.

(6) From 1 September 2025, articles 6, 10, 13, 14 and 15 do not apply to pupils in year 10 at a maintained school.

(**1**) S.I. 2008/1408 (W. 145).
(**2**) S.I. 2008/1409 (W. 146). There are amendments which are not relevant to these Regulations.

(7) Caiff y Gorchmynion a ganlyn eu dirymu ar 1 Medi 2026—

(a) Gorchymyn 2008; a

(b) Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio) (Cymru) (Diwygio) 2015(**1**).

**Rheoliadau Addysg (Datgymhwyso Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru yng Nghyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2008**

**7.** Caiff Rheoliadau Addysg (Datgymhwyso Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru yng Nghyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2008(**2**) eu dirymu ar 1 Medi 2022.

**Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) 2009**

**8.**—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) 2009(**3**) ("Rheoliadau 2009") yn gymwys fel a ganlyn.

(2) O 1 Medi 2024, nid yw Rheoliadau 2009 yn gymwys i ddisgyblion ym mlwyddyn 9 mewn ysgol a gynhelir.

(3) Caiff y Rheoliadau a ganlyn eu dirymu ar 1 Medi 2026—

(a) Rheoliadau 2009,

(b) rheoliad 8 o Reoliadau Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2010(**4**),

(c) Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) (Diwygio) 2014(**5**), a

(d) rheoliad 10 o Reoliadau Deddf Cymwysterau Cymru 2015 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016(**6**).

(7) The following Orders are revoked on 1 September 2026—

(a) the 2008 Order; and

(b) the Education (National Curriculum) (Attainment Targets and Programmes of Study) (Wales) (Amendment) Order 2015(**1**).

**The Education (Disapplication of the National Curriculum for Wales at Key Stage 1) (Wales) Regulations 2008**

**7.** The Education (Disapplication of the National Curriculum for Wales at Key Stage 1) (Wales) Regulations 2008(**2**) are revoked on 1 September 2022.

**The Education (Local Curriculum for Pupils in Key Stage 4) (Wales) Regulations 2009**

**8.**—(1) The Education (Local Curriculum for Pupils in Key Stage 4) (Wales) Regulations 2009(**3**) ("the 2009 Regulations") apply as follows.

(2) From 1 September 2024, the 2009 Regulations do not apply to pupils in year 9 at a maintained school.

(3) The following Regulations are revoked on 1 September 2026—

(a) the 2009 Regulations,

(b) regulation 8 of the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009 (Consequential Amendments) (Wales) Regulations 2010(**4**);

(c) the Education (Local Curriculum for Pupils in Key Stage 4) (Wales) (Amendment) Regulations 2014(**5**), and

(d) regulation 10 of the Qualifications Wales Act 2015 (Consequential Amendments) Regulations 2016(**6**).

(**1**) O.S. 2015/1601 (Cy. 200).
(**2**) O.S. 2008/1736 (Cy. 170).
(**3**) O.S. 2009/3256 (Cy. 284) a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/1142 (Cy. 101), O.S. 2010/2431 (Cy. 209), O.S. 2014/42 (Cy. 4) ac O.S. 2016/236 (Cy. 88).
(**4**) O.S. 2010/2431 (Cy. 210).
(**5**) O.S. 2014/42 (Cy. 4).
(**6**) O.S.2016/236 (Cy. 88).

(**1**) S.I. 2015/1601 (W. 200).
(**2**) S.I. 2008/1736 (W. 170).
(**3**) S.I. 2009/3256 (W. 284) amended by S.I. 2010/1142 (W. 101), S.I. 2010/2431 (W. 209), S.I. 2014/42 (W. 4) and S.I. 2016/236 (W. 88).
(**4**) S.I. 2010/2431 (W. 210).
(**5**) S.I. 2014/42 (W. 4).
(**6**) S.I. 2016/236 (W. 88).

**Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011**

**9.**—(1) Mae Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar 1 Medi 2022—

(a) mae rheoliad 2 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(i) hepgorer y diffiniadau o "asesiadau statudol", "cyfnod allweddol" a "cyfnod sylfaen",

(ii) yn y diffiniad o "categori iaith", yn lle'r geiriau "Diffinio ysgolion" hyd at "Cylchlythyr 023/2007" rhodder "Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg" a gyhoeddwyd gyntaf gan Weinidogion Cymru ar 16 Rhagfyr 2021(**2**)", a

(iii) yn y lleoedd priodol mewnosoder y diffiniadau a ganlyn—

"ystyr "blwyddyn 11" ("*year 11*") yw'r flwyddyn ysgol y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y grŵp blwyddyn yn cyrraedd 16 oed ynddi;";

"ystyr "blwyddyn meithrin" ("*nursery year*") yw'r flwyddyn ysgol y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y grŵp blwyddyn yn cyrraedd 4 oed ynddi;" a

(b) mae Atodlen 2 wedi ei diwygio fel a ganlyn—

(i) ym mharagraff 11, hepgorer "gan gynnwys y ddarpariaeth a wnaed ar gyfer gweithgareddau chwaraeon allgwricwlaidd yn ystod y cyfnod hwnnw", a

(ii) ym mharagraff 17, yn lle is-baragraff (a) rhodder—

"(a) defnydd o'r Gymraeg fel iaith yr addysgu i ddisgyblion ym mhob blwyddyn o'r flwyddyn meithrin hyd at flwyddyn 11 a'r graddau y mae addysgu arall ar gael yn Saesneg;".

(**1**) O.S. 2011/1939 (Cy. 207) a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/437 (Cy. 53). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

(**2**) Rhif ISBN: 978-1-80391-326-1.

**The School Governors' Annual Reports (Wales) Regulations 2011**

**9.**—(1) The School Governors' Annual Report (Wales) Regulations 2011(**1**) are amended as follows.

(2) On 1 September 2022—

(a) regulation 2 is amended as follows—

(i) omit the definitions of "foundation phase", "key stage" and "statutory assessments",

(ii) in the definition of "language category", for the words "Defining schools" to "Circular 023/2007" substitute "Guidance on school categories according to Welsh-medium provision" first published by the Welsh Ministers on 16 December 2021(**2**)", and

(iii) in the appropriate places insert the following definitions—

""nursery year" ("*blwyddyn meithrin*") means the school year in which the majority of the pupils in the year group attain the age of 4;",

""year 11" ("*blwyddyn 11*") means the school year in which the majority of pupils in the year group attain the age of 16;", and

(b) Schedule 2 is amended as follows—

(i) in paragraph 11, omit "including the provision made for extra curricular sports activities during that period", and

(ii) in paragraph 17, for subparagraph (a) substitute—

"(a) the use of Welsh as the language of instruction for pupils in each year from the nursery year to year 11 and the extent to which alternative instruction in English is available;".

(**1**) S.I. 2011/1939 (W. 207) amended by S.I. 2013/437 (W. 53). There are other amendments which are not relevant to this instrument.

(**2**) ISBN number: 978-1-80391-326-1.

**Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012**

**10.**—(1) Mae Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar 1 Medi 2022—

(a) mae rheoliad 3 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(i) yn y lleoedd priodol mewnosoder y diffiniadau a ganlyn—

"ystyr "blwyddyn 11" ("*year 11*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd 16 oed ynddo;",

"ystyr "blwyddyn meithrin" ("*nursery year*") yw'r flwyddyn ysgol y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y dosbarth yn cyrraedd 4 oed ynddi;",

"ystyr "Cwricwlwm i Gymru" ("*Curriculum for Wales*") yw'r cwricwlwm a fabwysiedir neu a ddarperir o dan Ran 2 neu 3 o Ddeddf 2021;",

"ystyr "Deddf 2021" ("*the 2021 Act*") yw Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021(**2**);", a

(b) yn lle paragraff 1(c)(i) o Atodlen 2 rhodder—

"(i) yn gyfan gwbl neu'n bennaf mewn ysgol neu sefydliad addysgol arall (ac eithrio uned cyfeirio disgyblion) yng Nghymru—

(aa) y mae, neu yr oedd, Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru yn cael ei addysgu ynddi neu ynddo mewn perthynas â'r cyfnod sylfaen, neu'r ail gyfnod allweddol, y trydydd cyfnod allweddol neu'r pedwerydd cyfnod allweddol, fel y bo'n briodol i'r ysgol neu'r sefydliad,

(bb) pan fo'r Cwricwlwm i Gymru yn cael ei addysgu mewn perthynas â'r flwyddyn meithrin hyd at flwyddyn 11, neu

**The School Teachers' Qualifications (Wales) Regulations 2012**

**10.**—(1) The School Teachers' Qualifications (Wales) Regulations 2012(**1**) are amended as follows.

(2) On 1 September 2022—

(a) regulation 3 is amended as follows—

(i) in the appropriate places insert the following definitions—

""the 2021 Act" ("*Deddf 2021*") means the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021(**2**);",

""Curriculum for Wales" ("*Cwricwlwm i Gymru*") means the curriculum adopted or provided under Part 2 or 3 of the 2021 Act;",

""nursery year" ("*blwyddyn meithrin*") means the school year in which the majority of the pupils in the class attain the age of 4;",

""year 11" ("*blwyddyn 11*") means a year group in which the majority of pupils attain the age of 16;", and

(b) for paragraph 1(c)(i) of Schedule 2 substitute—

"(i) wholly or mainly in a school or other educational institution (except a pupil referral unit) in Wales—

(aa) at which the National Curriculum for Wales is, or was, taught in relation to the foundation phase, or the second, third or fourth key stages, as is appropriate to the school or institution,

(bb) where the Curriculum for Wales is taught in relation to the nursery year to year 11, or

(**1**) O.S. 2012/724 (Cy. 96). Mae diwygiadau i baragraff 1 o Atodlen 2 nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.
(**2**) 2021 dsc 4.

(**1**) S.I. 2012/724 (W. 96). There are amendments to paragraph 1 of Schedule 2 which are not relevant to this instrument.
(**2**) 2021 asc 4.

(cc) pan fo’r cyfnod o hyfforddiant yr ymgymerwyd ag ef gan y person wedi cynnwys addysgu o dan Gwricwlwm Cenedlaethol Cymru ac o dan y Cwricwlwm i Gymru);”.

**Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Rhaglenni Addysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Rhaglenni Astudio ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a’r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2013**

**11.**—(1) Mae Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Rhaglenni Addysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Rhaglenni Astudio at gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a’r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2013(**1**) (“Gorchymyn 2013”) yn gymwys fel a ganlyn.

(2) O 1 Medi 2022, nid yw Gorchymyn 2013 yn gymwys—

(a) i blant a disgyblion—

(i) sy’n cael addysg feithrin mewn ysgol feithrin a gynhelir neu ysgol a gynhelir, neu

(ii) sy’n cael addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir,

(b) i ddisgyblion yn eu blwyddyn derbyn, ac

(c) i ddisgyblion ym mlynyddoedd 1 i 6.

(3) Ar 1 Medi 2023, nid yw Gorchymyn 2013 yn gymwys i ddisgyblion ym mlwyddyn 7 mewn ysgol a gynhelir pan fo’r pennaeth a’r corff llywodraethu wedi mabwysiadu cwricwlwm perthnasol ar gyfer y disgyblion blwyddyn 7 hynny o dan Ran 2 o Ddeddf 2021.

(4) O 1 Medi 2023, nid yw Gorchymyn 2013 yn gymwys i ddisgyblion ym mlynyddoedd 7 neu 8 mewn ysgol a gynhelir.

(5) Caiff Gorchymyn 2013 ei ddirymu ar 1 Medi 2024.

(**1**) O.S. 2013/434 (Cy. 52).

(cc) where the period of training undertaken by the person has included both teaching under the National Curriculum for Wales and under the Curriculum for Wales);”.

**The National Curriculum (Educational Programmes for the Foundation Phase and Programmes of Study for the Second and Third Key Stages) (Wales) Order 2013**

**11.**—(1) The National Curriculum (Educational Programmes or the Foundation Phase and Programmes of Study for the Second and Third Key Stages) (Wales) Order 2013(**1**) (“the 2013 Order”) applies as follows.

(2) From 1 September 2022, the 2013 Order does not apply to —

(a) children and pupils—

(i) receiving nursery education in a maintained nursery school or a maintained school, or

(ii) receiving funded non-maintained nursery education,

(b) pupils in their reception year, and

(c) pupils in years 1 to 6.

(3) On 1 September 2023, the 2013 Order does not apply to pupils in year 7 at a maintained school where the head teacher and governing body have adopted a relevant curriculum for those year 7 pupils under Part 2 of the 2021 Act.

(4) From 1 September 2023, the 2013 Order does not apply to pupils in years 7 or 8 at a maintained school.

(5) The 2013 Order is revoked on 1 September 2024.

(**1**) S.I. 2013/434 (W. 52).

**Rheoliadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygiadau sy'n ymwneud â Rhaglenni Addysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Rhaglenni Astudio ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2013**

**12.**—(1) Mae Rheoliadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygiadau sy'n ymwneud â Rhaglenni Addysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Rhaglenni Astudio ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2013(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Caiff rheoliad 2 ei ddirymu ar 1 Medi 2022.

**Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2014**

**13.** Caiff Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2014(**2**) ei ddirymu ar 1 Medi 2022.

**Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014**

**14.**—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar 1 Medi 2022—

(a) yn rheoliad 2(1)—

(i) yn lle'r diffiniad o "blaenoriaethau cenedlaethol" rhodder y canlynol—

"ystyr "blaenoriaethau cenedlaethol" ("*national priorities*") yw—

(a) gwella cynnydd disgyblion drwy sicrhau bod eu dysgu wedi ei gefnogi gan ystod o wybodaeth, sgiliau a phrofiad;

(b) lleihau effaith tlodi ar gynnydd a chyrhaeddiad disgyblion;",

(ii) hepgorer y diffiniad o "canlyniadau cyrhaeddiad", a

(iii) hepgorer y diffiniad o "gwybodaeth ysgol gymharol"; a

(b) hepgorer rheoliad 8.

**National Curriculum (Amendments relating to Educational Programmes for the Foundation Phase and Programmes of Study for the Second and Third Key Stages (Wales) Regulations 2013**

**12.**—(1) The National Curriculum (Amendments relating to Educational Programmes for the Foundation Phase and Programmes of Study for the Second and Third Key Stages) (Wales) Regulations 2013(**1**) are amended as follows.

(2) Regulation 2 is revoked on 1 September 2022.

**The Education (National Curriculum) (Foundation Phase) (Wales) Order 2014**

**13.** The Education (National Curriculum) (Foundation Phase) (Wales) Order 2014(**2**) is revoked on 1 September 2022.

**The Education (School Development Plans) (Wales) Regulations 2014**

**14.**—(1) The Education (School Development Plans) (Wales) Regulations 2014(**3**) are amended as follows.

(2) On 1 September 2022—

(a) in regulation 2(1)—

(i) for the definition of "national priorities" substitute the following—

""national priorities" ("*blaenoriaethau cenedlaethol*") are—

(a) improving pupils' progression by ensuring their learning is supported by a range of knowledge, skills and experience;

(b) reducing the impact of poverty on pupils' progression and attainment;",

(ii) omit the definition of "attainment results", and

(iii) omit the definition of "school comparative information"; and

(b) omit regulation 8.

---

(**1**) O.S. 2013/437 (Cy. 53).
(**2**) O.S. 2014/1996 (Cy. 198) a ddiwygiwyd gan O.S. 2015/1596 (Cy. 195).
(**3**) O.S. 2014/2677 (Cy. 265) a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/236 (Cy. 88) ac O.S. 2018/766 (Cy. 153).

(**1**) S.I. 2013/437 (W. 53).
(**2**) S.I. 2014/1996 (W. 198) amended by S.I. 2015/1596 (W. 195).
(**3**) S.I. 2014/2677 (W. 265) amended by S.I. 2016/236 (W. 88) and S.I. 2018/766 (W. 153).

**Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Gwybodaeth Asesiadau Athrawon) (Cymru) 2018**

**15.**—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Gwybodaeth Asesiadau Athrawon) (Cymru) 2018(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar 1 Medi 2022, hepgorer rheoliad 10(a).

**The Education (Amendments Relating to Teacher Assessment Information) (Wales) Regulations 2018**

**15.**—(1) The Education (Amendments Relating to Teacher Assessment Information) (Wales) Regulations 2018(**1**) are amended as follows.

(2) On 1 September 2022, omit regulation 10(a).

*Jeremy Miles*

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru
15 Mehefin 2022

Minister for Education and Welsh Language, one of the Welsh Ministers
15 June 2022

©ⓗHawlfraint y Goron 2022

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2022

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) O.S. 2018/766 (Cy. 153). Mae diwygiad nad yw'n berthnasol i'r offeryn hwn.

(**1**) S.I. 2018/766 (W. 153). There is an amendment which is not relevant to this instrument.

£6.90

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2022/679

ISBN 978-0-348-39323-1